Mewn Cymeriad

Cafodd dosbarthiadau Ogwen, Ffrydlas, Tryfan a Llywelyn wledd pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i ymweld â'r ysgol cyn y gwyliau, y tro hwn gyda chymeriad Owain Glyndŵr. Cafodd y plant fodd i fyw yn chwarae rolau amrywiol a dysgu am yr arwr o Gymru. Breuddwydiodd am gael annibyniaeth i Gymru, ac yn 1400 cyhoeddodd ei hun yn Dywysog Cymru. Am ddeuddeng mlynedd, arweiniodd wrthryfel yn erbyn awdurdod Lloegr yng Nghymru. Sioe ddiddorol a bywiog a roddodd bleser mawr i'r plant.

PC Meirion Williams

Cafodd disgyblion yr ysgol sgwrs ddiddorol iawn gyda PC Meirion Williams yn ddiweddar am feddyginiaethau a chyffuriau. Braf oedd eu gweld yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i'w gwestiynau. Diolch yn fawr iawn i PC Meirion Williams am alw draw i ymweld â'r plant.

Eisteddfod Cylch yr Urdd

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Dyffryn Ogwen eleni. Roedd pob un ohonoch yn arbennig ac roeddem yn hynod falch o'ch perfformiadau. Diolch i bawb ddaeth i helpu a chefnogi ar y diwrnod.

Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol yn parhau i weithio'n frwdfrydig y tymor hwn. Eisoes maent wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r Siarter Iaith a chynnal nifer o ddiwrnodau amrywiol er mwyn codi arian at elusennau amrywiol.